

Arolygiad o Wasanaeth Iechyd Meddwl y GIG (Dirybudd)

Ward Clywedog, Ysbyty Coffa
Rhyfel Llandrindod, Bwrdd Iechyd
Addysgu Powys

Dyddiad yr arolygiad: 21 Awst
2017

Dyddiad cyhoeddi: 22 Tachwedd
2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	14
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	19
4.	Beth nesaf?	22
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG	23
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	24
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	25
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	26

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Sicrhau bod pobl yng Nghymru'n derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn sicrhau bod profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud
- Uniondeb: rydym yn gweithredu mewn modd agored a gonest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud dyfarniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn rydym yn ei weld
- Cydweithredol: rydym yn adeiladu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: rydym yn gweithredu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gymesur yn ein hymagwedd

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Rhoi barn annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwella drwy adrodd ar arfer da a'i rannu.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn dod o hyd iddo i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad iechyd meddwl dirybudd o Ysbyty Coffa Rhyfel Llandrindod, ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys, ar 21 Awst 2017. Ymwelwyd â'r ward ganlynol ar y safle yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward Clywedog – Iechyd Meddwl Pobl Hŷn

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un arolygydd AGIC a dau adolygydd cymheiriaid clinigol (yr oedd un ohonynt yn adolygydd Deddf Iechyd Meddwl a enwebwyd). Arweiniwyd yr arolygiad gan reolwr arolygu AGIC.

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom adolygu dogfennau ar gyfer cleifion sydd wedi cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 er mwyn asesu cydymffurfiaid â'r Ddeddf.

Archwiliodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015). Ble y bo'n briodol, mae AGIC hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cydymffurfio â Deddf Iechyd Meddwl 1983, Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Deddf Galluedd Meddyliol 2005, a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion. Fodd bynnag, gwelsom beth tystiolaeth nad oedd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn cydymffurfio'n llawn â'r holl Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd cleifion a pherthnasau'n gadarnhaol iawn mewn perthynas â'r gofal, y gefnogaeth a'r driniaeth a ddarparwyd
- Darparwyd gofal unigol a oedd yn gyfannol i anghenion y cleifion
- Cwblhawyd cofnodion ac asesiadau cleifion i safon gynhwysfawr
- Roedd staff yn gweithio mewn ffordd ystyrlon a chydweithredol
- Roedd uwch-nyrsys ar y ward yn darparu arweinyddiaeth, arweiniad a chefnogaeth i holl aelodau staff y ward

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Y ddarpariaeth o wasanaethau iechyd corfforol
- Rheoli meddyginiaethau
- Gwaredu ar fonion sigarennau mewn modd diogel
- Adnoddau iaith Gymraeg

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Ward Clywedog yn darparu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG yn Ysbyty Coffa Rhyfel Llandrindod o fewn Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Gall y gwasanaeth hwn ddarparu gofal a thriniaeth am hyd at ddeg o gleifion. Mae Ward Clywedog yn darparu asesiad a thriniaeth ar gyfer oedolion hŷn â chyflwr iechyd meddwl.

Mae'r gwasanaeth yn uned gymysg â deg gwely. Ar adeg yr arolygiad, roedd pum claf mewnol ac un claf a oedd yn absennol.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys amrywiaeth o staff cymwys ac anghymwys. Mae therapydd galwedigaethol ar y ward. Mae gwasanaethau ffisiotherapi ac iechyd cysylltiedig yn yr ysbyty.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom yr holl gleifion yn derbyn gofal ac yn cael eu trin gan staff a oedd yn gwrtais ac yn garedig. Roedd y staff yn darparu gofal a chefnogaeth i gleifion mewn ffordd urddasol a pharchus. Roedd tîm y staff ar Ward Clywedog wedi bod ar waith ers peth amser ac roeddent yn sefydledig ac yn brofiadol.

Yn ystod 2014/15, adnewyddwyd y ward i safon uchel iawn a thrwy gydol ein hymweliad roedd y ward yn lân ac yn daclus. Roedd yr holl osodion yn cael eu cynnal i safon uchel.

Dosbarthwyd holiaduron i gleifion ar Ward Clywedog a'u teuluoedd i gael eu barn ar safon y gofal a ddarperir yn yr ysbyty. I gyd, gwnaethom dderbyn chwe holiadur, wedi'u cwblhau'n bennaf gan ofalwyr a pherthnasau cleifion a oedd wedi bod ar y ward am wythnos o leiaf. Rhoddwyd adborth cadarnhaol iawn yn yr holiaduron ac roedd y farn am y gofal a'r driniaeth a ddarparwyd ar y ward i gleifion yn rhagorol. Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd yn yr holiaduron gan ofalwyr a pherthnasau cleifion yn cynnwys:

"Mae'r staff yn hapus, yn gwrtais ac yn broffesiynol drwy'r amser. Mae'r staff yn mynd y tu hwnt i'w rôl"

"Mae fy mam wedi derbyn gofal gwych gan yr holl staff, sydd wedi'i helpu i fagu hyder a llonyddwch"

"Mae'r staff wedi bod yn hynod gefnogol ac yn fodlon rhoi help llaw"

Cadw'n iach

Roedd amrywiaeth o daflenni gwybodaeth perthnasol ar gael i gleifion, teuluoedd ac ymwelwyr eraill ym mynedfa'r ward. Roedd gwybodaeth am faterion iechyd meddwl ac arweiniad am ddeddfwriaeth iechyd meddwl a lles corfforol hefyd ar gael ar y ward. Yn ogystal, roedd manylion sefydliadau cysylltiedig a gwasanaethau eirioli annibynnol sydd ar gael i gefnogi cleifion a pherthnasau. Roedd therapydd galwedigaethol ar y ward, a oedd yn darparu cefnogaeth ac arweiniad ychwanegol i gleifion a staff. Roedd hon yn rôl weddol

newydd ar y ward a chawsom wybod gan uwch-nyrsys ei bod wedi darparu gwelliant penodol i gleifion sy'n dioddef afiechyd/cyflwr iechyd meddwl.

Gofal ag urddas

Mae Ward Clywedog yn rhan o wasanaethau cleifion mewnol a ddarperir yn Ysbyty Coffa Rhyfel Llandrindod. Yn ystod ein hymweliad cyfan, roeddem wedi arsylwi ar yr holl staff yn cyfathrebu â chleifion mewn ffordd urddasol, ystyrion a chwrtais. Nodwyd trafodaethau â staff eu bod yn frwdfrydig dros y cymorth a'r gefnogaeth y gallant eu rhoi i gleifion. Roedd y staff yn darparu gofal a chefnogaeth â'r nod o sicrhau bod y cleifion yn derbyn gofal a chefnogaeth unigoleddig sy'n benodol i'w hanghenion.

Clywyd staff yn siarad â chleifion mewn ffordd ddigyffro. Cawsom wybod bod y staff yn cyfeirio at gleifion yn ôl eu henwau dewisol. Gwelsom staff yn parchu cleifion, gan gynnwys rhyngweithio cyflym a phriodol er mwyn ceisio atal ymddygiad cleifion rhag gwaethygu. Gwelwyd technegau tynnu sylw a oedd yn helpu i dawelu problemau posib.

Roedd y ward wedi cael ei hadnewyddu'n helaeth ar ddiwedd 2014 a dechrau 2015. Gwnaed ymdrech sylweddol wrth ddarparu amgylchedd addas i'r cleifion dderbyn gofal ag urddas.

Gwelsom nifer o ystafelloedd gwely cleifion ac roedd tystiolaeth o beth unigoleiddio, megis rhai ffotograffau, a oedd yn briodol oherwydd mai uned asesu arhosiad byr ydyw yn y bôn.

Yn ystod ein hymweliad, roedd y ward yn lân ac yn daclus. Cawsom wybod mai hyn a hyn o le'n unig oedd ar y ward ar gyfer cyfarpar, ond yn ystod ein hymweliad, nid oeddem wedi gweld unrhyw annibendod a allai fod yn berygl i gleifion.

Roedd yr ardd yn lle heddychlon i'r cleifion fynd i'r awyr agored. Roedd planhigion, llwyni a mathau gwahanol o berlysiâu'n tyfu. Roedd yr ardd yn ddiogel ac yn galluogi cleifion i ymgymryd â thasgau megis gofalu am blanhigion mewn amgylchedd hamddenol ac ysgogol. Cawsom wybod bod y cleifion yn mwynhau ymweld â'r ardd. Roedd hefyd yn darparu man i gleifion smygu. Gwelsom dun mawr yn cael ei ddefnyddio ar gyfer bonion sigarennau, nad oedd wedi'i wacáu ers tro byd. Gwnaethom ddweud wrth y staff fod hwn yn peri risg i gleifion o bosib oherwydd gallent eu bwyta a chywirwyd hyn ar unwaith.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid diogelu'r tun yn yr ardd a'i wacáu'n rheolaidd er mwyn peidio â bod yn risg i gleifion.

Gwybodaeth i gleifion

Roedd gwybodaeth ysgrifenedig ar gael ar y ward mewn perthynas â'r uned, gan gynnwys amserau ymweld a rhifau cyswllt. Yn ogystal, roedd ethos y ward ar yr hysbysfyrddau ger y brif fynedfa. Roedd yn nodi:

Nod Ward Clywedog yw darparu gofal cyfannol unigoleddig o safon i'r holl gleifion, gan gynnig cyngor a chefnogaeth i deuluoedd a gofalwyr. Ein nod yw darparu'r gofal hwn mewn amgylchedd glân, diogel a chyfeillgar gan gadw at y safonau proffesiynol uchaf posib. Mae Ward Clywedog yn credu'n gryf mewn parchu safbwynt unigol cleifion, perthnasau a gofalwyr. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y broses barhaus o ddarparu gofal, ei roi ar waith a'i adolygu, lle caiff eu barn ei chydabod a'i pharchu.

Cred staff Ward Clywedog mai anghenion a phrofiadau cleifion yw'r brif ystyriaeth a'r ystyriaeth bwysicaf a daw'r canlyniadau gorau pan fo cleifion, eu gofalwyr, eu perthnasau a'r staff yn rhan weithredol o wneud penderfyniadau. Mae'r staff hefyd yn credu mewn trin cleifion a'u teuluoedd yn gwrtais, mewn modd proffesiynol, ac â didwylledd, gonestrwydd a pharch. Athroniaeth Ward Clywedog yw trin pobl yn y ffordd yr hoffem ni gael ein trin a darparu'r safon uchaf posib o ofal unigol mewn amgylchedd glân a diogel.

Roedd gwybodaeth ar gael ar y ward mewn perthynas â sut i leisio pryder/cwyn. Rhan o'r wybodaeth oedd manylion cyswllt dynodedig pobl a sefydliadau i gynorthwyo ag unrhyw bryderon.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i Fwrdd Iechyd Addysgu Powys sicrhau y cynhelir taflen y ward a'i bod yn cynnwys gwybodaeth berthnasol a diweddar.

Cyfathrebu'n effeithiol

Yn ystod yr ymweliad, gwelsom ryngweithio effeithiol rhwng staff a chleifion. Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd ethos ysgrifenedig Ward Clywedog ar gael ar y ward, ond yn anffodus yn Saesneg yn unig ac nid oedd ar gael yn Gymraeg.

Yn ogystal, swm cyfyngedig o ddeunyddiau Cymraeg ysgrifenedig oedd ar gael ar y ward i gleifion. Cynghorir Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i sicrhau bod y Gymraeg yn derbyn yr un faint o sylw â Saesneg.

Nodwyd bod rhai aelodau o staff yn gallu cyfathrebu yn Gymraeg â chleifion, a nodwyd bod hyn yn hanfodol bwysig mewn rhai achosion i gleifion sydd, oherwydd eu salwch, wedi dychwelyd i ddefnyddio'u mamiaith.

Cadarnhaodd y rhan fwyaf o ofalwyr a pherthnasau yn yr holiaduron fod aelod o'r teulu neu'r unigolyn maent yn gofalu amdano yn cael cynnig yr opsiwn i gyfathrebu â staff yn yr iaith o'i ddewis.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i Fwrdd Iechyd Addysgu Powys sicrhau bod gwybodaeth ysgrifenedig ar gael yn ddwyieithog ac yr hyrwyddir adnoddau Cymraeg.

Gofal amserol

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom werthuso darpariaeth y gwasanaeth rheoli gofal iechyd corfforol ar gyfer cleifion mewnol ar Ward Clywedog. Gwnaethom nodi, mewn sefyllfa frys, y byddai'r ward naill ai'n deialu am y gwasanaethau brys neu ofyn am droli brys o ward gyfagos. Roedd systemau ar waith i alw ar y cymorth hwn. Os bydd cleifion yn sâl yn gorfforol ond nid oes angen gofal a thriniaeth achub bywyd arnynt, nid oedd unrhyw brosesau/protocolau ffurfiol ar waith. Cawsom ein cynghori fod hyn yn broblem barhaus. Gallai meddyg ddarparu rheolaeth iechyd corfforol o ward gyfagos, ond nid oedd hyn yn gytundeb ffurfiol. Cynhaliwyd trafodaethau â'r seiciatrydd ymgynghorol, staff y ward ac uwch-aelod o staff Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. Roedd pob un yn ymwybodol o'r gwendid penodol hwn yn narpariaeth y gwasanaeth. Nodwyd y mater hwn hefyd yn ystod arolygiad AGIC blaenorol yn 2014. Rhaid i Fwrdd Iechyd Addysgu Powys sicrhau bod prosesau/protocolau a chytundebau lefel gwasanaeth ffurfiol yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau lles iechyd corfforol cleifion yn ystod eu harhosiad ar Ward Clywedog.

Yn ddiweddar, roedd y ward wedi recriwtio therapydd galwedigaethol newydd a nodwyd bod y ddarpariaeth gwasanaeth newydd hon yn darparu lles sylweddol i gleifion a hefyd wedi darparu sgiliau a gwybodaeth i dîm y staff wrth ofalu, cefnogi a thrin eu cleifion.

Gwnaethom ofyn i gleifion, eu gofalwyr neu berthnasau, yn yr holiaduron, am eu barn ar y gofal mae cleifion wedi'i dderbyn yn ystod eu harhosiad yn yr

ysbyty. Gwnaethom dderbyn adborth cadarnhaol, gyda phob un a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth ofalu a rhoi triniaeth a bod y staff yn darparu gofal yn ôl yr angen.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i Fwrdd Iechyd Addysgu Powys ddatblygu a rhoi prosesau, protocolau a chytundebau lefel gwasanaeth ffurfiol ar waith er mwyn darparu'r sylw iechyd meddygol corfforol penodol sydd ei angen ar gleifion ar y ward.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Roedd cofnodion cleifion a welwyd yn cynnwys gwybodaeth fanwl am eu hanghenion a'u gofynion asesedig. Roedd asesiadau'n drylwyr ac yn darparu darlun clir o'r gefnogaeth, y gofal a'r driniaeth ofynnol i gleifion.

Ymgwymerwyd â gweithgareddau cleifion ddwywaith y dydd. Amlygwyd rhestrau o'r gweithgareddau arfaethedig ar fwrdd yn y ward. Gwnaethom weld rhai cleifion yn gwrando ar gerddoriaeth ac yn gwau. Yn ogystal, cawsom wybod bod yr ardd yn darparu amrywiaeth o weithgareddau i gleifion. Roedd seddi a gwelyau blodau uchel ar gael ac roeddent i gyd yn cael eu cynnal a'u cadw i safon dda gan ddarparu amgylchedd pleserus i gleifion.

Darparodd gofaluwr a pherthnasau adborth cadarnhaol i ni yn yr holiaduron am staff yr ysbyty a oedd yn gofalu am aelod o'r teulu neu unigolyn dan eu gofal. Cawsom wybod bod y staff yn gwrtais, a bod y staff yn gwrando ar y claf a'i ffrindiau a'i deulu. Roedd y gofaluwr a'r perthnasau hynny a gwblhaodd holiadur hefyd yn teimlo fel bod y staff wedi siarad â'r aelod o'r teulu neu'r unigolyn dan eu gofal am ei gyflyrau meddygol a'i helpu i'w deall a bod y staff yn ei alw wrth ei enw dewisol.

Dywedodd gofaluwr a pherthnasau hefyd yn yr holiaduron fod y cleifion yn cael dewis gan staff am y dull roeddent am ei ddefnyddio pan fo angen iddynt fynd i'r tŷ bach, a bod y staff yn helpu cleifion gyda'u hanghenion toiled mewn ffordd sensitif fel nad oeddent yn teimlo embaras na chywilydd ac y perchir eu hurddas.

Roedd y ward yn defnyddio delweddau er mwyn rhoi ffynhonnell ychwanegol o wybodaeth i gleifion, megis lleoliad toiledau, ystafelloedd ymolchi a'u hystafelloedd.

Hawliau pobl

Roedd gwybodaeth ynghylch y Ddeddf Iechyd Meddwl ar gael ar y ward. Roedd dogfennau cyfreithiol i gadw cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

Gwrando a dysgu o adborth

Roedd gwybodaeth ar gael ar y ward yn nodi sut gallai pobl ddarparu adborth am eu gofal a'u triniaeth. Cawsom wybod bod perthnasau'n rhan o drafod agweddau ar ddarpariaeth gofal mewn sefyllfaoedd lle nad oedd cleifion yn gallu deall yr wybodaeth. Gwelsom deulu claf yn trafod gofal y claf ar ddiwrnod ein hymweliad.

Roedd gwybodaeth hefyd ar gael mewn perthynas â gwasanaethau eirioli sydd ar gael yn lleol ac yn genedlaethol. Yn ogystal, roedd gwybodaeth gyswllt am Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac Ombwdsmon Cymru hefyd ar gael.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwelsom fod prosesau ac archwiliadau sefydledig ar waith ar Ward Clywedog er mwyn rheoli risgiau a diogelwch, rheoli heintiau a rheoli meddyginiaeth. Roedd hyn yn galluogi staff i barhau i ddarparu gofal diogel ac effeithiol yn glinigol. Fodd bynnag, wrth graffu ar y rheoli meddyginiaeth ymhellach, roedd rhai materion oedd angen eu gwella.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd mynediad ar Ward Clywedog yn gyfyngedig ac roedd bysellfyrdau ar waith. Roedd yr amgylchedd mewnol yn drwsiadus, ac oherwydd hynny, nid oeddem wedi gweld unrhyw beryglon baglu yn ystod ein hymweliad. Roedd staff domestig dynodedig ar y ward bob dydd a chyda'r hwyr. Roedd yr holl luniau ar y waliau wedi'u diogelu'n briodol er diogelwch y cleifion. Nodwyd y storiwyd diffoddwyr tân mewn casys wedi'u cloi'n briodol.

Gwelsom fod cyfarpar, celfi a gosodiadau ar y ward o safon uchel. Roedd Ward Clywedog yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda yn ôl pob golwg ac roedd systemau ar waith i hysbysu am beryglon amgylcheddol a oedd angen sylw a gwaith atgyweirio.

Atal a rheoli heintiau

Cynhaliwyd a glanhawyd y ward i safon uchel iawn. Ni fynegwyd unrhyw bryderon yn yr holiaduron gan ofalwyr a pherthnasau cleifion dros hylendid y ward; cytunodd pawb fod y ward yn lân ac yn daclus.

Roedd blychau offer miniog yn cael eu storio'n briodol mewn ystafell glinig â chlo. Roedd gan y ward ei chyfleusterau golchi ei hun ac roedd y staff yn dweud bod hyn yn werthfawr iawn i gleifion oherwydd gellir golchi eitemau bach o ddillad ar y ward os nad oedd teuluoedd yn gallu gwneud hynny. Roedd yr

holl eitemau i'w golchi'n cael eu cadw oddi ar y ward. Cafodd holl ddillad gwely cleifion eu newid yn ddyddiol a symudwyd dillad brwnt o'r ward ar unwaith.

Roedd dosbarthwyr hylif diheintio ar y waliau o amgylch y ward. Roedd ffedogau a menig ar gael i staff hefyd. Yn ogystal, roedd posteri golchi dwylo'n weladwy er mwyn atgoffa staff o'r technegau golchi dwylo cywir. Roedd polisïau rheoli heintiau ar gael ar fewnwyd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. Ymgwymerwyd â monitro arferion rheoli heintiau hefyd drwy archwiliadau rheolaidd, a wnaed gan nyrsys arbenigol ym maes rheoli heintiau.

Maeth a hydradu

Gwelsom ginio'n cael ei ddarparu a nodwyd bod y pryd yn ymddangos yn flasus ac yn faethlon. Gwelsom fwydlenni, a oedd yn darparu dewis o brydau i gleifion. Cawsom wybod bod pryd gwahanol yn cael ei ddarparu os oedd ei angen ar gleifion. Yn ogystal, dywedwyd wrthym fod byrbrydau, fel brechdanau, creision a ffrwythau, ar gael drwy gydol y dydd a'r nos. Gallai bwyd ychwanegol gael ei archebu o'r gegin.

Roedd cleifion yn cael dewis lleoliad i fwyta'u prydau, naill ai yn yr ystafell fwyta, yn y lolfa neu yn eu hystafelloedd eu hunain. Gwelwyd cleifion yn bwyta'u prydau gyda'i gilydd a'r staff yn cefnogi'r cleifion yn ôl y gofyn mewn ffordd dawel ac urddasol.

Roedd yr holiaduron a gwblhawyd yn cadarnhau bod y staff yn helpu cleifion i fwyta os oes angen cymorth arnynt a bod gan gleifion amser i fwyta'u bwyd ar eu cyflymdra eu hunain. Roedd hefyd yn glir o'r ymatebion yn yr holiaduron fod dŵr ar gael bob amser a bod y staff yn helpu cleifion i yfed os oes angen cymorth arnynt.

Rheoli meddyginiaethau

Adolygwyd rheoli meddyginiaeth fel rhan o'r arolygiad. Yn gyffredinol, roedd rheoli meddyginiaeth yn dda gyda'r cofnodion gweinyddu meddyginiaeth ynghyd â chofnodi tymereddau oergelloedd yn cael eu cwblhau'n dda. Roedd y cofnodion a welwyd yn cadarnhau bod cyffuriau a reolir yn cael eu gwirio ddwywaith y dydd yn ystod y cyfnod trosglwyddo. Cawsom wybod bod fferylllydd yn ymweld â'r ward yn wythnosol er mwyn gwirio stoc, adolygu siartiau cofnodion gweinyddu meddyginiaeth ac ymgymryd â gweithgareddau archwilio. Storiwyd yr holl feddyginiaethau'n ddiogel. Trefnwyd y meddyginiaethau yn y troli cyffuriau yn nhrefn yr wyddor.

Yn ystod ein hymweliad, gwnaethom nodi bod angen gwella'r materion canlynol, sef bod meddyginiaeth oedd yn cael ei defnyddio wedi mynd heibio i'w

dyddiad defnyddio. Daeth hyn i sylw rheolwr y ward a'i ddatrys ar unwaith. Argymhellwn roi gwiriadau archwilio cynhwysfawr ar waith i adolygu agweddau megis dyddiadau dod i ben. Gwnaethom atgoffa rheolwr y ward, fel nyrsys a gofrestrwyd gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, fod yn rhaid iddynt gadw ar y ddogfen Safonau ar gyfer Rheoli Meddyginiaethau. Yn benodol, mae Safon 8, Gweinyddu (2.6), yn nodi bod yn rhaid gwirio dyddiad dod i ben meddyginiaeth cyn ei gweinyddu.¹

Yn ystod ein hymweliad, nid oedd yr oergell ar glo. Argymhellwn, er diogelwch, fod yr oergell yn cael ei chloi pan nad yw'n cael ei defnyddio.

Cawsom wybod yr adolygir gofynion meddyginiaeth cleifion yn wythnosol yn y cyfarfod tîm amlddisgyblaethol a chan ymarferydd nyrsio uwch â'r sgiliau, yr wybodaeth a'r cymhwyster dynodedig er mwyn ymgymryd â'r dyletswyddau hyn.

Nodwyd hefyd nad oedd tymheredd yr ystafell a ddefnyddir i storio meddyginiaethau'n cael ei fonitro'n ddyddiol. Yn ystod yr ymweliad, cofnodwyd mai'r tymheredd oedd 24°C. Gwnaethom ddweud wrth reolwr y ward fod rhai meddyginiaethau'n dechrau darvoud os yw'r tymheredd yn mynd yn uwch na 25°C. Cawsom wybod bod Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn ymwybodol o'r mater hwn.

Cafwyd yr holl feddyginiaethau brys eu storio gyda'r troli brys ar y ward gyfagos.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i Fwrdd Iechyd Addysgu Powys sicrhau bod systemau ar waith i nodi meddyginiaeth sy'n agos at ei dyddiad dod i ben a bod yr holl nyrsys cofrestredig yn cydymffurfio'n llawn â dogfen Safonau ar gyfer Rheoli Meddyginiaethau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Rhaid cadw'r oergell ar glo pan nad y'n cael ei defnyddio.

Rhaid i Fwrdd Iechyd Cyngor Powys fonitro tymheredd yr ystafell lle cedwir

¹ [Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth – Safonau ar gyfer Rheoli Meddyginiaeth](#)

meddyginiaethau a chyflwyno systemau a fydd yn cael eu rhoi ar waith os yw tymheredd yr ystafell yn mynd yn uwch na 25°C.

Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Roedd gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys bolisïau a gweithdrefnau dynodedig ar gael mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion mewn perygl. Dangosodd trafodaethau â staff fod ganddynt ddealltwriaeth dda o egwyddorion diogelu a'r camau gweithredu priodol i'w cymryd petai unrhyw bryderon diogelu.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau llywodraethu digonol ar waith a oedd yn hybu staff i ddarparu gofal diogel ac effeithiol yn glinigol mewn perthynas ag iechyd meddwl. Fel y nodwyd yn flaenorol, rhaid gwerthuso darpariaethau'r gwasanaeth gofal iechyd corfforol a rhoi cytundebau lefel gwasanaeth ffurfiol ar waith. Nodwyd trafodaethau â staff eu bod yn hapus yn eu rolau a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i ddarparu'r gofal a'r gefnogaeth orau posib i gleifion.

Yn ystod ein hymweliad â'r ward, roedd cyfweiliadau recriwtio'n cael eu cynnal drwy'r dydd. Cawsom wybod bod recriwtio staff yn anodd yn yr ardal. Cawsom wybod gan y staff eu bod yn llwyddo i gyflenwi'r holl sifftiau angenrheidiol ond y byddai gweithlu mwy'n helpu gyda'r mater hwn yn enfawr.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd amrywiaeth o systemau, polisïau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau llywodraethu gwybodaeth cadarn. Roedd gan gyfrifiaduron ddiogelwch cyfrinair ac roedd gan staff fanylion mewngofnodi unigol.

Cadw cofnodion

Roedd gwybodaeth ynghylch cleifion yn cael ei chadw ar ffurff electronig, â diogelwch cyfrinair, neu ar bapur, ac roedd y cofnodion hyn yn cael eu storio'n ddiogel mewn cwpwrdd â chlo. Roedd gan bob claf nifer o gofnodion gwahanol o wybodaeth ofal fanwl. Roedd y dystiolaeth a welwyd yn cadarnhau bod lefelau da o asesu a monitro lles cleifion ar waith a bod y rhain yn cael eu

hadolygu'n rheolaidd. Yn gyffredinol, cynhaliwyd cofnodion cleifion i safon dda gan ddarparu archwiliad clir o arhosiad y cleifion ar y ward.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu'r dogfennau cadw statudol ar gyfer claf ar y ward. Roedd cofnodion y claf a gwerthuswyd yn gynhwysfawr, wedi'u strwythuro'n dda, ac wedi'u trefnu'n adrannau hawdd eu darllen.

Roedd yr holl gofnodion yn ddarllenadwy, wedi'u diweddarau, yn gyfoes, ac wedi'u llofnodi gan aelod o'r staff. Dangosodd y ffeil atebolrwydd a thystiolaeth glir o sut y gwnaethpwyd penderfyniadau yn ymwneud â'r claf. Darparwyd gwybodaeth briodol i gleifion a'u teuluoedd hefyd mewn perthynas â sut i wneud cwyn, cael mynediad i'r gwasanaeth eiriolaeth, cael mynediad i gyngor cyfreithiol, a chael mynediad i'r cod ymarfer.

Roedd cleifion yn derbyn gwybodaeth ar lafar ac yn ysgrifenedig mewn perthynas â'r rhan o'r Ddeddf Iechyd Meddwl yr oeddent wedi'u cadw odani a gwelwyd tystiolaeth a oedd yn nodi bod yr wybodaeth hon yn cael ei hailgyflwyno'n rheolaidd.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Gwnaethom adolygu cynlluniau gofal claf ar y ward. Yn gyffredinol, roedd ansawdd y cynlluniau gofal a'r cofnodion clinigol o safon uchel. Rhywbeth i'w nodi'n benodol oedd y ddogfen 'Dyma fi', sy'n nodi'n glir dewisiadau, galluoedd, hoff a chas bethau, hobiau, a diddordebau personol. Roedd yn darparu gwybodaeth ansoddol am yr unigolyn ac yn dod â'r wybodaeth yn fyw.

Roedd maes arall o arfer da yn ymwneud â mewnbwn dyddiol yng nghofnodion cleifion. Roedd pob aelod o'r tîm amlddisgyblaethol yn ysgrifennu yn y nodiadau, gan ddarparu cysondeb wrth olrhain taith a phrofiad y claf yn ystod ei gyfnod ar y ward.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hunan ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Yn ddiweddar, roedd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi ailafael yn y cyfrifoldeb dros wasanaethau iechyd meddwl ym Mhowys. Yn flaenorol, roedd tri bwrdd iechyd cyfagos yn rheoli ac yn darparu'r gwasanaethau iechyd meddwl ar y cyd. Nodwyd rhai pryderon mewn perthynas â pholisïau, gweithdrefnau a gwaith papur yn dangos manylion y bwrdd iechyd blaenorol. Cadarnhaodd trafodaethau ag uwch-nyrs ar Fwrdd Iechyd Addysgu Powys fod gwaith yn mynd rhagddo a bod ymdrechion yn cael eu gwneud i sicrhau cysondeb a chywirdeb gwybodaeth ar holl ddogfennau'r bwrdd iechyd.

Roedd y ward yn elwa ar grŵp sefydlog o staff a oedd wedi gweithio ar y ward ers tipyn o amser.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Yn gyffredinol, gwnaethom nodi y byddai'r ward yn elwa ar reolaeth ac arweinyddiaeth gynhwysol. Gwnaeth trafodaethau â staff atgyfnerthu'r gred hon drwy'r staff yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn derbyn cefnogaeth dda yn eu rolau. Teimlodd staff yn hapus i leisio pryderon gydag uwch-nyrsys ar y ward ac y byddent yn gwranddo ac yn gwerthuso'u pryderon/problemau yn weithredol. Nododd y staff eu bod yn cael eu trin â pharch, urddas a thegwch gan eu rheolwyr llinell. Roedd rheolwr y ward yn weladwy iawn ar y ward ac yn meithrin ymagwedd tîm gynhwysol, gan sicrhau mai'r cleifion oedd wrth wraidd eu holl arfer.

Cawsom wybod gan y staff a rheolwr y ward fod y staff wedi derbyn gwerthusiad perfformiad blynyddol a bod hwn yn parhau. Dywedodd y staff eu bod yn gallu nodi eu targedau datblygu personol eu hunain ac y byddai'r rheolwyr yn agored i'w ceisiadau.

Gwnaethom nodi bod rhai dogfennau ar waith yn cynnwys manylion y bwrdd iechyd blaenorol. Cawsom wybod bod Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn y broses o adolygu ei ddogfennau er mwyn arddangos manylion cywir y bwrdd iechyd.

Staff ac adnoddau

Y gweithlu

Cawsom wybod bod y lefelau staffio/recrwtio wedi bod yn destun pryder ers tro byd. Ar ddiwrnod ein hymweliad, roedd cyfweiliadau'n cael eu cynnal a'r adborth cychwynnol oedd bod y cyfweiliadau wedi bod yn llwyddiannus a bod posibilrwydd da o lenwi'r swyddi gwag.

Cynhaliwyd trafodaethau â sawl aelod o'r staff a'r tîm amlddisgyblaethol ehangach. Nodwyd bod y ward yn elwa o gydweithio rhagorol ar draws gweithwyr proffesiynol gofal iechyd. Yn benodol, nododd y therapydd galwedigaethol fod staff nyrsio'n manteisio ar weithgareddau cynllunio a gweithredu. Roedd yr ethos cydweithio hwn yn fanteisiol i gleifion ac yn hyrwyddo gwaith tîm ar y ward.

Gwnaethom geisio adolygu cofnodion hyfforddiant staff ar y ward ond, yn anffodus, nid oedd rhai cofnodion a welwyd wedi'u cwblhau. Y rheswm am hyn oedd nad oedd rhai cofnodion hyfforddiant staff wedi'u trosglwyddo o feddalwedd hyfforddiant byrddau iechyd blaenorol i feddalwedd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. Cawsom wybod bod Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn gweithio i ddatrys y broblem hon a sicrhau bod yr holl gofnodion wedi cael eu trosglwyddo'n briodol.

Cawsom wybod am rai pryderon ynghylch gallu Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i ddarparu cyrsiau hyfforddiant dynodedig gofynnol i'r holl staff, gan ystyried diffyg profiad y bwrdd iechyd wrth reoli darpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl. Cawsom wybod bod hwn yn faes sy'n cael ei fonitro'n ofalus a bod Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn hollol ymwybodol o'r sefyllfa.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i Fwrdd Iechyd Addysgu Powys roi sicrwydd i AGIC bod yr holl gofnodion hyfforddiant electronig wedi'u diweddarau a bod yr holl staff yn derbyn yr hyfforddiant gorfodol priodol a'r hyfforddiant arbenigol angenrheidiol iddynt weithio yn eu rolau dynodedig.

Rhaid i Fwrdd Iechyd Addysgu Powys sicrhau AGIC fod ganddo'r gallu i

ddarparu cyrsiau dynodedig i'r staff sydd wedi'u cyflogi yn y gwasanaethau iechyd meddwl ym Mhowys.

4. Beth nesaf?

Lle'r ydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad sy'n gofyn i'r gwasanaeth weithredu, caiff y rhain eu nodi yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle mae'r rhain yn gymwys):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a ddatblygwyd ac a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod unrhyw gamau gweithredu a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodir yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'i hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau'n systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r diweddaraf i AGIC lle mae angen gweithredu o hyd a/neu fod camau gweithredu ar waith, i gadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG

Mae ein harolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl y GIG fel arfer yn ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Mae adborth yn cael ei wneud ar gael i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn ystyried sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#), [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#) a [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#) ac yn gweithredu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#)

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle y bo'n berthnasol. Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau iechyd meddwl y GIG.

Ceir manylion pellach am sut mae AGIC yn arolygu [iechyd meddwl](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosib ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Roedd angen gwacáu tun a oedd yn cynnwys bonion sigarennau.	Gallai'r bonion sigarennau hyn beri risg i ddiogelwch a lles cleifion o bosib pe byddent yn cael eu bwyta.	Gwnaethom leisio'r pryder hwn gyda staff y ward yn ystod yr arolygiad a gofyn i'r tun gael ei wacáu ar unwaith.	Gwnaeth y staff wacáu'r tun a dweud y byddent yn cadw llygad mwy manwl ar ei gynnwys yn y dyfodol.

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Ward/uned(au): Ward Clywedog

Dyddiad yr arolygiad: 21 Awst 2017

Mae'r tabl isod yn nodi unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon a oedd angen sylw ar unwaith.				

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Ward/uned(au): Ward Clywedog

Dyddiad yr arolygiad: 21 Awst 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid diogelu'r tun sigarêts yn yr ardd a'i wacáu'n rheolaidd er mwyn peidio â bod yn risg i gleifion.	4.1 Gofal ag urddas	Caiff y bin gwastraff i sigarêts ei wacáu yn rheolaidd erbyn hyn, a'i dynnu o'r ardd pan nas defnyddir.	Rheolwr y ward	Cwblhawyd
Rhaid i Fwrdd Iechyd Addysgu Powys sicrhau y cynhelir taflen y ward a'i bod yn cynnwys gwybodaeth berthnasol a diweddar.	4.2 Gwybodaeth i gleifion	Mae rheolwr y ward yn diweddararu taflen y ward i sicrhau ei bod yn cynnwys yr wybodaeth gyfredol ar gyfer cleifion a'u gofalwyr.	Rheolwr y ward	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i Fwrdd Iechyd Addysgu Powys sicrhau bod gwybodaeth ysgrifenedig ar gael yn ddwyieithog ac yr hyrwyddir adnoddau Cymraeg.</p>	<p>3.2 Cyfathrebu'n effeithiol</p>	<p>Mae gwaith ar y gweill gyda Swyddog Iaith Gymraeg y bwrdd iechyd i sicrhau bod yr holl ddeunydd ysgrifenedig ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg.</p>	<p>Rheolwr y ward</p>	<p>Cwblheir hyn erbyn 1 Rhagfyr 2017.</p>
<p>Rhaid i Fwrdd Iechyd Addysgu Powys ddatblygu a rhoi prosesau, protocolau a chytundebau lefel gwasanaeth ffurfiol ar waith er mwyn darparu'r sylw iechyd meddygol corfforol penodol sydd ei angen ar gleifion ar y ward.</p>	<p>5.1 Mynediad amserol</p>	<p>Er Mehefin 2017, mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi cyflogi uwch-ymarferydd nyrsio a seiciatrydd gradd ganol llawn amser (yn ogystal â'r seiciatrydd ymgynghorol llawn amser sydd eisoes mewn swydd). Rhennir y rolau hyn yn gyfartal rhwng Ward Clywedog yn Llandrindod a Ward Crug yn Aberhonddu.</p> <p>Darperir gwasanaeth meddygol y tu allan i oriau trwy gontract y bwrdd iechyd gyda Shropdoc.</p> <p>Mae gwaith ar y gweill gydag ardal y de i nodi mewnbwn gofal iechyd corfforol ychwanegol (yn ogystal â'r ddau seiciatrydd a'r uwch-ymarferydd nyrsio) gan feddyg gofal yr henoed (yn seiliedig</p>	<p>Pennaeth Gweithrediadau Iechyd Meddwl</p>	<p>Erbyn Chwefror 2018</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		ar y ward gyfagos Claerwen).		
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
<p>Rhaid i Fwrdd Iechyd Addysgu Powys sicrhau bod systemau ar waith i nodi meddyginiaeth sy'n agos at ei dyddiad dod i ben a bod yr holl nyrsys cofrestredig yn cydymffurfio'n llawn â dogfen Safonau ar gyfer Rheoli Meddyginiaethau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.</p> <p>Dylai'r oergell gael ei chadw ar glo pan nad yw'n cael ei defnyddio.</p> <p>Rhaid i Fwrdd Iechyd Addysgu Powys fonitro</p>	2.6 Rheoli meddyginiaethau	<p>Cyfrifoldeb unigol y nyrs a'r fferylllydd yw sicrhau bod dyddiadau'r meddyginiaethau yn gyfredol cyn eu darparu. Caiff archwiliad stoc rheolaidd ei gynnal gan y ward.</p> <p>Bydd clinigwyr yn cael eu hatgoffa o'r cyfrifoldeb hwn drwy lythyr a thrwy gyfarfodydd tîm, a bydd rheolwr y ward yn monitro cydymffurfiaeth.</p> <p>Mae clinigwyr wedi cael eu hatgoffa i sicrhau bod yr oergell feddyginiaeth yn cael ei chadw dan glo pan nad yw'n cael ei defnyddio, a bydd rheolwr y ward yn monitro cydymffurfiaeth.</p>	<p>Rheolwr y ward</p> <p>Rheolwr y ward</p> <p>Rheolwr y ward</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Erbyn diwedd mis Tachwedd 2017</p> <p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>tymheredd yr ystafell lle caiff meddyginiaethau eu storio a chyflwyno systemau a fydd yn cael eu rhoi ar waith os yw tymheredd yr ystafell yn mynd yn uwch na 25°C.</p>		<p>Mae thermomedr a chofnodion dyddiol ar waith. Mae trafodaethau'n mynd rhagddo gyda'r adran ystadau i bennu'r camau gweithredu sydd eu hangen i liniaru'r perygl hwn ac i gynnal rheolaeth briodol dros y tymheredd ar gyfer storio meddyginiaeth.</p>	<p>Pennaeth Gweithrediadau Iechyd Meddwl a Phennaeth Ystadau</p>	<p>Ionawr 2018</p>
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
<p>Rhaid i Fwrdd Iechyd Addysgu Powys roi sicrwydd i AGIC bod yr holl gofnodion hyfforddiant electronig wedi'u diweddarau a bod y staff wedi derbyn yr hyfforddiant gorfodol a'r hyfforddiant arbenigol priodol iddynt weithio yn eu rolau dynodedig.</p> <p>Rhaid i Fwrdd Iechyd Addysgu Powys roi sicrwydd i AGIC bod ganddo'r gallu i ddarparu cyrsiau dynodedig i staff a gyflogir yn y gwasanaethau iechyd meddwl ym Mhowys.</p>	<p>7.1 Y gweithlu</p>	<p>Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn defnyddio system gofnodion y Cofnod Staff Electronig i fonitro cydymffurfiaeth hyfforddiant staff.</p> <p>Mae cynllun gweithredu ar gyfer Ward Clywedog ar y gweill i sicrhau bod y staff yn cwblhau eu hyfforddiant statudol a gorfodol.</p> <p>Ar hyn o bryd, y perfformiad cyfredol o fewn yr Is-adran Iechyd Meddwl (mewn perthynas â hyfforddiant statudol a gorfodol) yw 65% (Hydref 2017) ac rydym yn disgwyl sicrhau bod pob aelod o staff wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn</p>	<p>Pennaeth Nyrso Iechyd Meddwl</p>	<p>Chwefror 2018</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>erbyn mis Chwefror 2018.</p> <p>Mae Pennaeth Addysg Glinigol newydd wedi dechrau gweithio gyda'r bwrdd iechyd ac mae'n gweithio gyda'r Pennaeth Nyrsio i sicrhau bod anghenion hyfforddiant y gwasanaeth yn cael eu nodi a bod trefniadau cyflenwi yn cael eu rhoi ar waith.</p>		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd yr adran weithredol:

Alan Lawrie – Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl

Cynrychiolydd gweithredol:

Joy Garfitt – Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Iechyd Meddwl

Dyddiad: 6 Tachwedd 2017